



Dinas a Sir Abertawe

**Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu -  
Gwasanaethau Plant a Theuluoedd**

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas /  
MS Teams**

**Dydd Mawrth, 1 Tachwedd 2022 am 4.30 pm**

**Yn Bresennol:** Y Cyngorydd P R Hood-Williams (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Y Cyngorydd(wyr)**

K M Griffiths  
W G Lewis

**Y Cyngorydd(wyr)**

S M Jones  
H M Morris

**Y Cyngorydd(wyr)**

E T Kirchner  
Cheryl Philpott

**Hefyd yn bresennol**

Louise Gibbard

Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal

**Swyddog(ion)**

Julie Davies  
Chris Griffiths  
Liz Jordan

Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd  
Prif Swyddog Gwasanaethau Preswyl  
Swyddog Craffu

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cyngorydd(wy): A M Day  
Swyddog: David Howes

---

**1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Ni wnaed unrhyw ddatgeliadau.

**2 Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

**3 Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**4 Gwasanaethau Gofal Preswyl**

Roedd Louise Gibbard, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal a swyddogion perthnasol yn bresennol i roi trosolwg o wasanaethau preswyl i blant yn Abertawe.

Pwyntiau Trafod:

Cofnodion y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (Dydd Mawrth, 1 Tachwedd 2022)  
Parhad

- Dywedodd y Panel fod y Gwasanaeth mewn sefyllfa heriol iawn gyda diffyg lleoliadau addas ar gyfer plant, ond ei fod yn gweithio'n galed iawn i ddatblygu ei ddarpariaeth ei hun ac mae adroddiadau'n dangos bod cynnydd da yn cael ei wneud.
- Nododd y Panel fod y Datganiad o Ddiben am 12 wythnos a holodd beth oedd hyn yn ei olygu i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac yn bwysicach, i'r bobl ifanc dan sylw. Cawsant wybod bod hwn yn ffigwr mympwyol a'i fod yn dibynnu ar p'un a oes trosglwyddiad mwy priodol i'r person ifanc symud ymlaen i ddarpariaeth fwy sefydlog o fewn y 12 wythnos. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda thîm rheoliadau ac arolygiadau AGC ar hyn, ac maent yn gwbl ymwybodol o'r heriau.
- Roedd Aelodau'r Panel yn deall pam nad yw plant yn hapus i wneud elw allan ohonynt a'u bod yn cytuno â symud ymlaen gyda diffyg elw. Holodd y Panel a oes unrhyw negyddiaeth gyda lleoliadau maeth oherwydd eu bod yn cael eu talu. Dywedodd y Panel nad yw byth yn achos i leoliad chwalu, ond gall ddod yn broblem os yw'n cael ei drafod yn y ffordd anghywir.
- Nododd y Panel fod yna le mewn darpariaeth gofal preswyl i 3 o blant yn Abertawe ar hyn o bryd a bod y gwasanaeth yn bwriadu cynyddu hyn i 7 ond teimlai fod hyn yn dal i ymddangos yn isel iawn ar gyfer ardal maint Abertawe. Holodd y Panel a yw'r awdurdod mewn sefyllfa lle mae'n gorfod rhoi plant dan ofal preswyl y tu allan i Abertawe a beth yw'r niferoedd ar gyfer hyn. Clywodd y Panel fod rhai'n derbyn gofal yn Abertawe ac awdurdodau cyfagos ac mae'r mwyafrif yng Nghymru.
- Mynegodd y Panel bryder y bydd Cartref 3, lle y daw plant o unedau diogel, a Chartref 4 sydd ar gyfer darpariaeth frys, yn cael eu lleoli wrth ymyl ei gilydd. Cawsant wybod y bydd yn 2 gartref ar wahân ac y bydd un yn lled-ddiogel.
- Gofynnodd y Panel a oedd o fudd economaidd i'r awdurdod gael ei gyfleusterau ei hun neu gyfleusterau a ddarperir gan ddarparwyr allanol. Clywyd bod cael gwasanaethau mewnol yn yr awdurdod lleol yn parhau i fod yn fuddiol o ran arbed costau. Fodd bynnag, mae gwerth hefyd mewn cadw plant a phobl ifanc yn lleol er mwyn cadw eu hunaniaeth, sydd yr un mor werthfawr â'r arbediad cost i'r awdurdod lleol. Hefyd, mae gan yr awdurdod gynnig hyfforddiant gwell ar gyfer staff.
- Holodd y Panel a oes gan blentyn sy'n byw y tu allan i ardal yr awdurdod yr un safon o ofal â gwasanaethau'r cyngor. Clywodd y Panel fod gan yr awdurdod swyddog monitro contractau sy'n sicrhau ansawdd yr holl blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal y tu allan i ddarpariaethau'r awdurdod. Mae rheoleiddwyr AGC hefyd yn archwilio'r ddarpariaeth ac yn rhannu'r wybodaeth hon â'r awdurdod lleol y mae'r plant wedi'u lleoli ynddo.
- Dywedodd y Panel fod gan yr holl blant a phobl ifanc y mae angen gofal a chymorth arnynt ar hyn o bryd ddarparwyr cofrestredig.
- Holodd y Panel a oedd unrhyw wrthwynebiad lleol i'r cartrefi preswyl newydd arfaethedig. Hysbyswyd y Panel ei fod yn y camau cynnar ar hyn o bryd ond nid yw'r gwasanaeth yn rhagweld unrhyw bryderon. Y bwriad yw cysylltu â'r gymuned leol, mewn partneriaeth â chynghorwyr lleol, i egluro beth mae'n ei olygu cyn i arwyddion cynllunio gael eu gosod, gyda'r gobaith y bydd cadernid cymunedol.

- Roedd y Panel yn falch o glywed beth mae plant a phobl ifanc wedi ei ddweud am Dŷ Nant.
- Cadarnhaodd swyddogion fod sgiliau bywyd wedi'u cynnwys yn yr amserlen yn Nhŷ Nant. Maen nhw am geisio gwneud pobl ifanc mor hunangynhaliol â phosib.
- Roedd y Panel am wybod pam mae staff yn dal i wneud camgymeriadau ar waith papur am dderbyniadau yn Nhŷ Nant, gan fod cyn lleied o bobl y mae'n rhaid ei gwblhau ar eu cyfer. Clywodd y Panel fod y gwaith papur yn ymddangos yn syml, ond mae'r canllawiau'n eithaf cymhleth ac mae llawer o wybodaeth y mae angen ei chofnodi'n gywir ar waith papur derbyniadau. Mae'r gwasanaeth yn gweithio gydag AGC i nodi'r modelau gorau i'w defnyddio fel nad yw gwaith papur mor gymhleth i'w gwblhau. Mae gan y Panel ddiddordeb mawr mewn gweld y canlyniad yn dilyn archwiliad pellach o Dŷ Nant ym mis Rhagfyr 2022.

#### Camau Gweithredu:

- Ychwanegu 'Sesiwn Frifio ar Arolygiad sy'n canolbwyntio ar Dŷ Nant' at raglen waith y dyfodol.

## 5 Y Diweddaraf am y Bwrdd Magu Plant Corfforaethol

Roedd Julie Davies, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, yn bresennol i roi trosolwg i'r Panel o'r cynllun gwaith ar gyfer y Bwrdd Magu Plant Corfforaethol dros y flwyddyn nesaf a'r cynnydd hyd yma.

#### Pwyntiau Trafod:

- Soniodd y Panel fod ganddyn nhw bryderon yn y gorffennol am y gwahaniaeth ym mherfformiad plant sy'n derbyn gofal rhwng blwyddyn 6 a blwyddyn 11. Clywodd y Panel y bydd yr Ysgol Rithwir yn caniatáu i'r gwasanaeth archwilio hyn mewn ffordd fwy cydlynol sy'n dda ar gyfer cyrhaeddiad a dilyniant. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig treialu'r Ysgol Rithwir ac mae Abertawe yn rhan o'r cynllun peilot. Bydd effeithiolrwydd yr ysgol rithwir yn cael ei farnu gan ddefnyddio data ar bresenoldeb, cynnydd, gwaharddiadau, dilyniant ac adborth gan blant a phobl ifanc am gyflawni eu dyheadau. Roedd gan y Panel ddiddordeb mewn gweld sut mae'r canlyniadau hyn yn cael eu hadrodd.
- Hysbyswyd y Panel fod datblygiad meddalwedd ar gyfer yr ysgol rithwir ar y trywydd iawn gyda'r cynllun gweithredu. Bydd y Pennaeth Gwasanaeth yn cadarnhau a yw wedi'i gwblhau ac yn rhoi diweddariad i'r Panel.
- Nododd y Panel o'r adroddiad fod tîm y rheini sy'n gadael gofal wedi'i ailddechrau'n fewnol a holodd pa mor llwyddiannus y bu hyn yn enwedig o ran COVID a phrinder staff a oedd yn siŵr o fod yn gyfnod anodd. Hysbyswyd y Panel fod staff wedi'u trosglwyddo heb unrhyw anawsterau a bu'r ymgyrch i recriwtio staff yn llwyddiannus ac roedd symud drosodd i'r awdurdod wedi gwella cyflog ac amodau pobl. Clywyd ei fod yn heriol iawn yn ystod COVID, roedd pobl ifanc yn ei chael hi'n anodd peidio â gallu cael cyswllt wyneb yn wyneb â phobl, ond mae hyn wedi gwella nawr mae mwy o ryngweithio wyneb yn wyneb.

Cofnodion y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (Dydd Mawrth, 1 Tachwedd 2022)  
Parhad

- Holodd y Panel faint o blant sy'n byw mewn llety gwely a brechwast ar hyn o bryd ac fe'i hysbyswyd nad oes dim ar hyn o bryd. Dros gyfnod o dri mis bu rhwng dau a phump. Mae'r gwasanaeth yn ceisio cadw eu harhosiad yno mor fyr â phosib, ond yr her yw dod o hyd i opsiynau ar gyfer eu symud ymlaen gan fod diffyg argaeledd yn Abertawe o ran llety annibynnol.

Camau Gweithredu:

- Pennaeth Gwasanaeth i gadarnhau a yw'r gwaith i ddatblygu meddalwedd ar gyfer yr Ysgol Rithwir wedi'i gwblhau.

**6 Rhaglen Waith 2022-23**

Trafododd y Panel y rhaglen waith gan nodi eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.40 pm